*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Cyfarfod rhithwir o'r CABINET**
**Dydd Mawrth, 28ain Gorffennaf, 2020 am 2.30 pm**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 01443 424062)**

**Os bydd Cynghorwyr yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm, Dydd Gwener, 24 Gorffennaf 2020**
**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. Dylai unrhyw Aelod sy'n dymuno siarad gwneud hynny yn unol â'r trefniadau sydd wedi'u pennu gan y Cadeirydd ar gyfer rhoi cyfle i'r rheiny nad ydynt yn Aelodau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithwir. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2020 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 12)**

3. **CYNIGION I GYMERADWYO CYTUNDEB CYFLENWI DIWYGIEDIG AR GYFER LLUNIO CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Cytundeb Darparu diwygiedig ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 13 - 98)**

4. **Y CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (SACRE)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, sy'n cyflwyno gwybodaeth i'r Cabinet ynglŷn â'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE), gan gynnwys Adroddiad Blynyddol SACRE RhCT ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-19.

**(Tudalennau 99 - 136)**

5. **NEWID RHEOLAU - CYMDEITHAS DAI TRIVALLIS**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned, sy'n gofyn am gymeradwyo diwygiad i reolau cymdeithas Trivallis ynghylch cynrychioli tenantiaid ar y Bwrdd.

**(Tudalennau 137 - 142)**

6. **TREFNIADAU DIOGELU CORFFORAETHOL Y CYNGOR**

Derbyn adroddiad gan y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo Cynllun Gwella mewn perthynas â Chynllun Diogelu Corfforaethol y Cyngor, yn ogystal â Pholisi Diogelu Corfforaethol ddiwygiedig.

**(Tudalennau 143 - 188)**

7. **ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 31 MAWRTH 2020 (DIWEDD BLWYDDYN)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi trosolwg o gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

**(Tudalennau 189 - 214)**

8. **Y DIWEDDARAF YNGLŶN Â COVID-19 YN RHONDDA CYNON TAF - CYNLLUNIAU ADFER**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am y camau y mae'r Cyngor wedi'u cymryd o ganlyniad i argyfwng cenedlaethol COVID-19.

**(Tudalennau 215 - 258)**

9. **TRAFOD CADARNHAU'R PENDERFYNIAD ISOD:-**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**10. Y CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL – DIWEDDARIAD INTERIM 2018-2023**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet am y cynnydd yn erbyn themâu allweddol y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018/23.

**(Tudalennau 259 - 284)**

**11. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**